# Taflen Cynllunio Gwers - Cymharu testunau sy'n perswadio

| **Blwyddyn / CA:** | Awgrym Blwyddyn: Bl9 |
|---|---|

| **Nod y wers:** | Byddant yn gallu adnabod nodweddion testunau sy'n perswadio a'u cymharu mewn testunau gan ddefnyddio iaith cymharu a chysyllteiriau priodol |
|---|---|
| **Rhaglen Astudio (Darllen) CA3:** | Bl9 Strategaethau Darllen - "defnyddio'u gwybodaeth am gynnwys a chyd destun brawddegau a thestun cyfan"<br>Bl9 Darllen a deall - **"cymharu'n ofalus gan dynnu sylw at yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol mewn testunau pytiog e.e. o ran bwriad, cynulleidfa, iaith a chyflwyniad"** ✣ |

| **Camau'r wers:** | |
|---|---|
| **Dysgu: Beth fydd y dysgwyr yn ei wneud?** | **Addysgu: Beth fydd yr athro yn ei wneud?** |
| Trafod nodweddion testunau sy'n perswadio<br>Deall beth yw ystyr anodi<br>Cyflwyno'r Diagramau Venn (maint A3): Venn Bwriad a Chynulleidfa, Venn Iaith ac Arddull a Venn Diwyg | Atgoffa'r disgyblion o'r ddau destun sy'n perswadio a astudiwyd a'u nodweddion<br>Defnyddio techneg, megis "Yr Het", i ganfod atebion gan ddisgyblion ar hap<br><br>**Egluro beth yw anodi** |
| **Datblygu'r wers:** | |
| Parau i lenwi UN Diagram Venn (maint A3) ar y ddau ddarn darllen gan sicrhau eu bod yn dyfynnu a chynnwys tystiolaeth o'r darnau wrth roi rhesymau<br>Parau i sicrhau eu bod wedi llenwi canol (Tebygrwydd) eu Diagram Venn<br>Wedi tua 15 munud, y parau i gyfnewid eu Diagramau Venn â phâr a fu'n llenwi Diagram Venn ar nodweddion gwahanol<br>Parau i anodi sylwadau ar y nodweddion sy'n cael eu trafod gan ddefnyddio saethau, blychau, swigod, uwcholeuo ayyb o amgylch y Diagramau Venn<br>Sicrhau bod parau yn anodi pob rhan o'r Diagramau, hynny yw, cynnwys y ddau gylch a'r canol<br>(Os yw amser yn caniatau gellir cyfnewid Diagramau unwaith eto)<br>Dychwelyd y Diagramau Venn i'r pâr a fu'n gweithio ar yr un gwreiddiol iddynt gael gwerthuso ac ymateb i'r anodi a wnaed<br>(Os oes craffwr yn y dosbarth, gellid ei ddefnyddio yma i arddangos gwaith gwreiddiol y parau a'r anodi a wnaed) | Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio iaith cymharu a chysyllteiriau<br>Monitro cywirdeb atebion a'r iaith<br>Atgoffa'r disgyblion o nod y wers |
| **Clo y wers:** | |
| Defnyddio'r Powerpoint Trafod Diagram Venn er mwyn i'r parau gyfiawnhau a gwerthuso eu gwaith drwy ateb y cwestiynau | Sicrhau bod yr ymatebion i'r cwestiynau yn llawn ac yn cynnwys tystiolaeth o'r testunau |
| **Adnoddau:** | |
| Mwy nag un testun pytiog sy'n perswadio (amrywiol ffurfiau)<br>Diagramau Venn a Powerpoint "Trafod Diagram Venn"<br>Craffwr i arddangos gwaith y disgyblion | |
| **Deilliannau Dysgu:** | |
| Drwy gwestiynu'r disgyblion yng nghlo y wers gwelir y cynnydd a wnaed o safbwynt eu hadnabyddiaeth o nodweddion testun sy'n perswadio e.e. bwriad, iaith a chyflwyniad yn ogystal â'u gallu i gymharu'r testunau'n ofalus a chyflwyno tystiolaeth o'r darnau i gefnogi eu barn | |


GwE

YSGOL BOTWNNOG

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Ysgol Tryfan

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Taflen Cynllunio Gwers - Cymharu testunau sy'n perswadio

YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government